

Yn Hydref 2004 sefydiwyd gweithgor i edrych ar drefniadaeth ysgolion y Sir a chefais fy newid gan benaethiaid Dalgylch Botwnnog i gynrychioli ysgolion Dwyfor. Roedd 6 pennaeth ar y gweithgor ynghyd a 6 cynghorydd sir a nifer o swyddogion yr awdurdod.

Egwyddorion cychwynol

- *Cydnabod nad oedd trefn gyfredol Gwynedd yn gynaliadwy i'r dyfodol.*
- *Cydnabod bod cydweithio rhwng ysgolion yn allweddol i'r dyfodol ac y gall hyn arwain at:*
 - *fwy o gydweithio ffurfiol rhwng ysgolion mawr a bach*
 - *glystyru ysgolion*
 - *sefydlu ysgolion ffederal mewn rhai ardaloedd.*
- *Bod yn effro i'r posibilrwydd o sefydlu ysgolion ardal mewn rhai ardaloedd.*
- *Dylid datblygu meini prawf penodol er mwyn penderfynu ar gynaladwyedd ysgolion llai at y dyfodol.*

Nodwyd hefyd mai'r cam naturiol nesaf oedd datblygu modelau fyddai'n creu'r amgylchiadau priodol i sicrhau bod:-

- *cydweithio rhwng ysgolion yn datblygu i'w lawn botensial;*
- *goresgyn nifer o'r problemau cynhenid sydd wedi eu hadnabod mewn perthynas ag ysgolion bach;*
- *goresgyn y pryderon sy'n bodoli ynghylch dyfodol ysgolion bach.*

***** Dywedwyd yn hollol glir o'r cychwyn nad oedd cau ysgolion bychain ar yr agenda o gwbl a dim ymarferiad arbed arian oedd hyn ond cyfle i wella addysg y Sir drwy ail-strwythuro.**

Yn y gweithgor cawsom gyfres o drafodaethau (poeth ar brydiau) yn trafod y materion uchod, a chodwyd yr holl bwyntiau sydd wedi cael eu mynegi yn y wasg dros 2 flwyddyn diwethaf hefo'r gweithgor, hynny ydy:-

- Fod ansawdd addysg wych gan yr ysgolion bychain fel mae arolygiadau a chanlyniadau wedi profi
- y cydweithio gwych presennol sydd rhwng ysgolion cynradd
- fod diffyg ymchwil i ffederaleiddio - fod rhai ysgolion wedi llwyddo ac eraill wedi methu
- fod anfanteision amlwg ffederaleiddio
- **Ond roedd yn hollol amlwg fod rhan fwyaf o gynrychiolwyr y Cyngor Sir ar y gweithgor yn clywed popeth ond yn gwrando ar ddim nad oeddynt eisiau ei glywed,**
- **roedd yn amlwg hefyd bod materion yn cael eu trafod ymlaenllaw, a phenderfyniadau yn cael eu gwneud ymlaenllaw cyn cael eu cyflwyno i ni.**
- **Y gwir amdani oedd fod y gweithgor yn cael ei ddefnyddio i rybyrstampio bwriadau'r Cyngor Sir**

Cynhyrchwyd yr adroddiad cyntaf ar drefniadaeth ysgolion a phasiwyd hi gan y Cyngor, yna cynhalwyd 55 cyfarfod ymgynghorol o amgylch y dalgylchoedd. Ond fel y gwyddoch yn iawn doedd yr ymgynghori ddim yn boblogaidd oherwydd ei natur ei fod -

- yn cyflwyno gormod o wybodaeth yn ddi-ddiwedd
- ddim yn cynnig digon o amser i gynnal trafodaeth
- doedd y Cyngor ddim yn ymateb i'r gwestiynau a ofynnwyd
- roeddynt yn cyflwyno opsiynau caeedig – clystyrru, ffederaleiddio, ysgolion bro ac ati heb roi digon o wybodaeth amdanynt

Yn fras, methiant pur fu'r ymgynghori, rhoddwyd yr adroddiad ar silff yng Nghaernarfon a chafwyd oediad am ychydig fisoedd.

Yn y cyfanser cafwyd dyraniad cyllidol waeth na'r disgwyl gan y Cynulliad, ac wele fel manna o'r nefoedd daeth yr adroddiad newydd allan sef -

]Cynllun ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er lles Addysg Holl Blant Gwynedd –

wedi ei hysgrifennu gan 4 o'r prif swyddogion.

Roedd holl agwedd yr adroddiad fel petai'r 4 yma wedi cael llond bol ar ganlyniad yr ymgynghori blaenorol ac wedi mynd at i lunio adroddiad i sortio addysg gynradd fel yr oeddynt hwy yn gweld y sefyllfa.

Cymhariaeth o'r datganiadau cychwynol a'r argymhellion yn yr adroddiad diweddaraf :-

Datganiadau cychwynol	Beth sydd am ddigwydd
i beidio a chau ysgolion bychain	cau 29 ysgol gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgolion bychain gwledig llwyddiannus dro ben sydd wedi bod yn asgwrn cefn i addysg Gwynedd
Clystyrru ysgolion	peidio clystyrru o gwbl - mae'n costio gormod o arian
I ffederaleiddio mewn rhai ardaloedd	Hwn ydy arf pwysicaf Gwynedd erbyn hyn, sef cau 55 ysgol (arall dros hanner ysgolion y Sir) a'u ffederaleiddio nhw yn 18 ysgol newydd
i beidio a chadw'r Status Quo? Cadw ysgolion fel y maent	(yn rhyfedd iawn mae 19 ysgol fawr am gael llonydd)
Ffurio ysgolion bro	Cau nifer o ysgolion a'i hailagor ar l agor 8 ysgol newydd ar gost o £40m, dwn iddim o ble. Os oes gennych £4m yn sbar, anfonwch o i Nefyn – maent wedi bod yn gofyn am ysgol newydd ers 20 mlynedd
i ymgynghori yn llawn ac yn dryloyw	Ond ffars oedd o fynnu bod ysgolion yn dewis o'r opsiynau caeedig uchod . . . a go anhebyg y bydd yr ymgynghori newydd sydd newydd ddechrau fawr gwell
<u>Gofynwyd i mi egluro mwy am beth ydy ffederaleiddio. Wel dyma fo</u>	

- Does dim o'i le hefo ffederaleiddio os ydy'n cadw ysgolion ar agor, cyn belled â bod cydsyniad y gymuned, y llywodraethwyr, yr athrawon, y rhieni a'r plant - heb y cydsyniad pwysig yma wnaiff o ddim gweithio.
- Pa brofiad sydd gan Wynedd o ffederaleiddio cynradd – nemor dim a wnawn nhw ddim ei dreialu chwaith. Mae rhai ysgolion yn barod i 'w dreialu felly pam na chawn nhw? Dechreuwch ffederaleiddio yno a dangoswch ei fod yn gweithio.
- **Beth ydy'r fformat mae'r Sir yn ei gynnig i ni? Wel, dyma fo:-**
- 2, 3 neu 4 ysgol yn cau ac yn ail agor fel ysgol ffederal ar safleydd gwahanol o dan arweiniad un pennaeth arweiniol ar ffo fel ci yn rhedeg ar ôl ei gynffon!!!,
- Penodi pennaeth safle ar gyfer pob safle
- I gael plant o'r un oedran at ei gilydd bydd raid i'r plant neu'r staff deithio
- Os plant yn teithio gall gostio £10,000 y flwyddyn neu fwy. (enghraifft Pennant a Llanwddyn)
- Os bydd y plant yn teithio yn ystod y dydd bydd amser addysgu yn cael ei golli tra mae'r plant yn teithio.
- Neu bydd raid i athrawon deithio o ysgol i ysgol, pwy fydd yn goruwchwilio'r plant sydd ar ôl.
- Peidiwch â meddwl fy mod yn erbyn ffederaleiddio - gall weithio mewn ambell i le o dan yr amodau cywir a chefnogaeth y gymuned gyfan ond tydy o ddim yn ateb i 55 o ysgolion Gwynedd, ac mae llawer o fodolau gwell ar gael na'r un mae'r Cyngor yn ei fynnu ar ein hysgolion
- Mae'r Cynulliad am gyhoeddi adroddiad yr haf yma sy'n cynnig arweiniad ar hyn.

Oherwydd agwedd y Cyngor a'r ymgynghoriad truenus o wael cyntaf a gawsom mae'r ymarferiad wedi esgor ar frwydr geiriau cas yn y cyfryngau dros y 2 flwyddyn diwethaf ac erbyn hyn prin oes yna garfan o gwbl sy'n hapus hefo'r cynllun ad-drefnu, hyd yn oed yr ysgolion mawrion sydd, yn ol adroddiad yn y cylchgrawn Golwg yr wythnos dwythaf yn dweud nad ydy'r ysgolion mawrion yn gweld yr ad-drefnu wedi mynd yn ddigon pell!

Erbyn hyn, mae'n hollol eglur fyd yr holl gynllun diweddaraf yn gwbl anymarferol, a'r unig beth mae wedi llwyddo i'w wneud ydy creu rhyngiadau rhwng ysgolion mawr a bach, rhwng cymuned a chymuned, rhwng y dref a'r wlad.

Mae angen i'r Cyngor Sir

- daflu'r ddogfen yma allan hefyd ,
- i ddysgu o'u camgymeriadau,
- i gychwyn eto gydag agwedd iachach tuag at y cymunedau sydd wedi bod yn dryw iddyn nhw ar ran ei gwaith caled i berfformio'n arbennig o dda ac i godi safonau -
- ac i ymgynghori go iawn o'r newydd yn gwbl agored, yn dryloyw a theg hefo'n hysgolion a'n cymunedau.
- i dreialu ffederaleiddio a gadael i'r ysgolion sydd yn awyddus i wneud hynny fwrw ati ar fyrder
- i beidio a manteisio ar eu cyfle i gau ysgolion ond i fuddsoddi o iawn yng nghefn gwlad fel mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi ei wneud.
- I ddefnyddio pob ceiniog goch mae nhw yn ei dderbyn gan y Cynulliad ar gyfer addysg ar addysg yn unig

Ar un amser roedd Cyngor Gwynedd yn ymffrostio eu bod yn gweithio mewn 'partneriaeth' â'r ysgolion a'n cymunedau, tydy hynny ddim yn wir mwyach os na fydd U bedol anferthol yn agwedd a bwriadau'r Cyngor yn digwydd!!!